**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**

**YSTYRIED CWYN YN ERBYN CYN GYNGHORYDD SIR YN DILYN YMCHWILIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

| Paragraff(au) 12, 13, 14, 18A, 18C Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 | |
|---|---|
| **Y PRAWF** | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Gwrandawiad yw hwn i gasgliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod cyn Gynghorydd, o bosib, wedi torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.<br><br>Pwrpas y Côd yw annog safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, fel y disgrifir yn y Côd, a'i orfodi pan fo angen. Mae hwn yn fater budd cyhoeddus oherwydd bod cydymffurfiaeth gyda'r Côd yn cyflawni rôl sicrwydd bwysig o ran yr hyn a wneir gan Aelodau etholedig pan maent yn cynrychioli'r cyhoedd. Yn gryno, mae'r ffaith fod y Côd yn bodoli, i raddau helaeth, er budd y cyhoedd / | Y budd i'r cyhoedd wrth beidio â datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae parargaff 12 yn ymwneud â gwybodaeth am unigolyn a paragraff 13 yn ymwneud a datgelu unigolyn. Mae'r papurau o flaen y Pwyllgor Safonau yn datgelu unigolion a gwybodaeth am unigolion sydd ddim yn aelodau neu'n swyddogion y Cyngor.<br><br>Mae paragraff 14 yn ymwneud â gwybodaeth busnes neu ariannol unigolyn. Mae'r papurau o flaen y Pwyllgor yn datgelu gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn sydd ddim yn aelod na'n swyddog o'r Cyngor.<br><br>Mae paragraff 18A yn ymwneud â *"information which is subject to any obligations of confidentiality".*<br><br>Mae'r Ombwdsmon wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â'r Adroddiad. Mae hyn yn creu disgwyliad o gyfrinachedd ar ran y Cyngor. Mae'n gwestiwn hefyd a fyddai modd cynnal yr amod cyfrinachedd pe bai'n cael ei herio.<br><br>Serch hynny, byddai'r Cyngor yn torri disgwyliad diamwys yr Ombwdsmon ynghylch cyfrinachedd pe bai'n datgelu yr Adroddiad, a gallai olygu fod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Waeth beth fyddai rhinweddau her o'r fath, mae gan hyn y potensial o gynnwys y Cyngor mewn anghydfodau diangen sy'n wastraff o adnoddau cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| | Wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd "hollgynhwysfawr", mater i'r Ombwdsmon fyddai cyfiawnhau ei safbwynt os cyflwynir her yn sgil diffyg datgelu, gan nad yw'r Cyngor yn gwybod beth yw ei resymeg na'i gyfiawnhad.<br><br>Mae paragraff 18C yn caniatau i'r Pwyllgor Safonau ystyried materion mewn preifat ac fe all hyn gynnwys clywed tystiolaeth ar faterion sy'n eithriedig o dan baragraffau eraill. |

**Argymhelliad** - Ar ôl pwyso a mesur mae'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.